

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN**  
a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda Zoom nos Lun, 25 Ionawr 2021 am 7:00pm.

**PRESENNOL:** Cyngorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer)  
Y Cyngorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes,  
Menna Jones, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts,  
Mike van der Eijk ac Ifan Wyn.  
Y Cyngorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.

#### 26. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

#### 27. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cyngorwyr Jim Bryan ac Anne Roberts ddatgan budd personol yn Eitem 3 –  
Prosiect Arfaethedig Adfer Cloc y Dref gan eu bod wedi bod yn rhan o'r trafodaethau dechreuol  
a gwnaeth y Cyngorwydd Gavin Harris ddatgan budd yn Eitem 25 – Cod Ymddygiad.

#### 28. PROSIECT ARFAETHEDIG ADFER CLOC Y DREF

Croesawodd y Maer Robert Price a Fiona Gale i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am y papur briffio  
a'r ffotograffau a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Esboniodd Mr Price fod grŵp wedi'i ffurfio, yn  
cynnwys amrywiaeth o sgiliau ac arbenigedd, gyda'r bwriad o adfer heneb Joseph Peers i  
sicrhau cadwraeth y tirnod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cadarnhaodd Mrs Gale mai'r  
bwriad oedd sicrhau bod tŵr y cloc mewn cyflwr addas i wrthsefyll yr 145 mlynedd nesaf a  
gofynnodd i'r Cyngor Tref gefnogi'r prosiect. Dywedodd y Cyngorwydd Sir Emrys Wynne ei fod  
yn cefnogi'r prosiect arfaethedig.

**PENDERFYNWYD:** *fod y Cyngor Tref yn cefnogi'r prosiect arfaethedig i fwrw ymlaen i  
ymgyngoriad.*

#### 29. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi mynychu'r cyfarfodydd isod:

- 11.01 Cyfarfod ynghylch y Felodrom gyda Hamdden Sir Ddinbych
- 15.01 Cyfarfod ynghylch y Felodrom gyda Beicio Cymru
- 18.01 Trefnu ymweliad a chyfarfod y plymwr yn yr Hen Lys i drwsio'r rheiddiadur yn gollwng  
Cyfarfodydd a gwaith ymchwil i OBratoi cais am Grant Covid Canol Trefi i'w gyflwyno i  
Gyngor Sir Ddinbych erbyn 22 Ionawr, yn dilyn cymeradwyaeth yn y Pwyllgor  
Amwynderau

#### 30. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Beirniadu'r cartref gyda'r addurniadau Nadolig gorau, cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy gyfrwng Zoom, cyfarfod cynllun Tocyn Anrheg Rhuthun trwy Zoom a rhagor o waith ymchwil ynghylch y cynllun tocyn anrheg trwy gyfrwng Zoom.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru trwy gyfrwng Zoom.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys a chyfarfod gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch cloc y dref trwy gyfrwng Zoom.
Cyng. Ken Hawkins	Darllen y mesuryddion trydan yn Eglwys Sant Pedr i gyfrifo cost llifoleuo tŵr yr eglwys yn ystod 2020.
Cyng. John Wynne Hughes	Dim i'w adrodd.

Cyng. Menna Jones	Cynorthwyo i baratoi pecynnau bwyd yn y Banc Bwyd ym mis Rhagfyr a chyfarfod Pwyllgor Staffio a Phenodi Ysgol Pen Barras.
Cyng. Ian Lewney	Dim i'w adrodd.
Cyng. Jabez Oakes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Robert Owen-Ellis	5 sesiwn gyda'r Banc Bwyd. Dosbarthwyd hamperi Nadolig i 142 o deuluoedd yn yr ardal dros gyfnod y Nadolig – i fwy na 400 o oedolion a phlant.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy gyfrwng Zoom, cyfarfod cynllun Tocyn Anrheg Rhuthun trwy gyfrwng Zoom, sesiwn Amser Stori a drefnwyd gan Reolwr yr Hen Lys trwy Zoom a chyfarfod gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch cloc y dref trwy gyfrwng Zoom.
Cyng. Mike van der Eijk	Dim i'w adrodd.
Cyng. Ifan Wyn	Dim i'w adrodd.

### 31. ADRODDIAD CYNGORHWYR SIR RHUTHUN

Roedd adroddiadau'r Cyngorwyr Sir yn cyfeirio at ymchwiliadau i'r allyriadau o'r safleoedd diwydiannol ar Lôn Gwernydd a'r posibilrwydd na fyddai'r system draffig un ffordd a gyflwynwyd mewn ymateb i ofynion cadw pellter cymdeithasol oherwydd Covid-19 a hybu teithio egniol yn parhau.

### 32. COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2020 yn gofnodion cywir, yn ddarostyngedig i newid y cynigydd a'r eilydd yn enwebu'r Dirprwy Faer.*

### 33. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2020 yn gofnodion cywir.*

### 34. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

### 35. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2021, a'r argymhelliad i wneud cais am y Grant Canol Trefi Covid-19 a gynigiwyd gan Gyngor Sir Ddinbych.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2021 a chyflwyno'r cais am gyllid grant tuag at seddi, arwyddbyst a pheiriant llenwi poteli dŵr.*

### 36. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2021.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2021.*

### 37. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Hysbyswyd yr aelodau fod y cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri wedi bod yn llwyddiannus a bod sesiynau ar-lein Stori Rhuthun yn cael eu cynnal. Derbyniwyd cais i ddefnyddio'r Hen Lys fel gorsaf bleidleisio ym mis Mai 2021. Hefyd roedd Pwyllgor Gŵyl Rhuthun wedi cynnig talu am bwynt trydan gyda mynediad allanol o dan lle bu'r peiriant arian parod yn flaenorol, am £380.00. Roedd y Gweithgor wedi cytuno i gais Rheolwr yr Hen Lys i barhau i weithio oriau gostyngol oherwydd yr estyniad i gyfyngiadau Covid-19, i'w adolygu ymhen tri mis.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r diweddariad a chymeradwyo bod Rheolwyr yr Hen Lys yn parhau i weithio 15 awr yr wythnos am dri mis arall, i'w adolygu ddiwedd mis Mawrth.*

### **38. DIWEDDARIAD YNGHYLCH FELODROM GOGLEDD CYMRU**

Hysbyswyd yr aelodau am newid lleoliad potensial o safle Glasdir i safle Canolfan Hamdden Rhuthun yn Ysgol Brynhyfryd. Byddai hyn o fudd i'r ysgol a'r ganolfan hamdden. Mae rhagor o waith i ganfod y costau yn cael ei wneud a bydd ymgynghori ar hyn os yw'n cael ei gymeradwyo gan Feicio Cymru.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r diweddariad.*

### **39. PROSIECT BWS BENTHYG**

Hysbyswyd yr aelodau fod Cyngor Tref Llangollen wedi penderfynu tynnu'n ôl o'r prosiect ac wedi gofyn a oedd Cyngor Tref Rhuthun yn dymuno arwain y prosiect, yn ddarostyngedig i'r cyllidwyr fod yn fodlon trosglwyddo'r cyllid. Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn ymwneud â nifer o brosiectau eraill ar hyn o bryd ac nid oedd ganddynt yr awch i arwain yr un yma ar yr adeg yma. Roeddynt yn gobeithio y gellid ystyried cynllun tebyg eto yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:** *nodi penderfyniad Cyngor Tref Llangollen ac nad oedd Cyngor Tref Rhuthun yn dymuno arwain y prosiect.*

### **40. CYLCH GWAITH ARFAETHEDIG PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS**

Gofynnwyd i'r aelodau am eu sylwadau ynghylch y cylch gwaith arfaethedig. Awgrymwyd diwygio'r geiriad fel bod rhaid i aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Tref fod yn bresennol i gyfarfod fodloni'r cworwm a chynnwys y trothwyon gwario yn unol â'r Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol.

**PENDERFYNWYD:** *cytuno a chadarnhau Cylch Gwaith Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys.*

### **41. AELODAETH PWYLLGORAU**

Roedd yr aelodau'n fodlon aros ar y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Amwynderau fel y maent ar hyn o bryd. Cynigiodd y Cynghorydd Jabez Oakes fod yn aelod o'r Is-bwyllgor Cymorth Ariannol, cytunodd y Cynghorydd Mike van der Eijk barhau i fod yn aelod o Bwyllgor y Gymaeg, cynigiodd y Cynghorydd Ian Lewney ymuno gyda'r Is-bwyllgor Craffu Ariannol a Phwyllgor Rheoli'r Hen Lys, gyda'r Cynghorydd John Wynne Hughes yn ymuno gyda Phwyllgor Rheoli'r Hen Lys hefyd.

**PENDERFYNWYD:** *cytuno ar aelodaeth y Pwyllgor a'r Is-bwyllgorau fel y nodwyd uchod a dosOBrthu'r manylion diwygiedig i'r aelodau erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.*

### **42. CYNRYCHIOLWYR Y CYNGOR TREF AR GYRFF ALLANOL**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chadarnhau cynrychiolwyr y Cyngor Tref ar gyrff allanol. Cynigiodd y Cynghorydd Jim Bryan fod yn gynrychiolydd yn mynd i gyfarfodydd Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru ynghyd â'r Cynghorydd Stephen Beach, cynigiodd y Cynghorydd Heather Williams fod yn aelod o Bwyllgor Sioe Rhuthun ac awgrymwyd fod un o'r cynghorwyr newydd yn mynd ar Bwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose gyda'r Cynghorydd Ifan Wyn. Cadarnhawyd y Cynghorydd Anne Roberts fel cynrychiolydd y Cyngor Tref ar Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun ac hefyd yn aelod o Grŵp Adfer Cloc y Dref gyda'r Cynghorydd Jim Bryan.

**PENDERFYNWYD:** *gwneud y newidiadau uchod i gynrychiolwyr y Cyngor Tref ar gyrff allanol a hysbysu'r cyrff perthnasol yn unol â hynny.*

### **43. SEDDI GWAG AR Y CYNGOR TREF**

Hysbysodd y Clerc yr aelodau fod dwy sedd wag ar y Cyngor Tref, yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Dave Snape a phenderfyniad Ruth Astbury i beidio â bod yn aelod o'r Cyngor oherwydd ymrwymadau gwaith. Byddai'n cysylltu gyda Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Sir Ddinbych a byddai hysbysiad yn ymddangos ar wefan a hysbysfwrdd y Cyngor Tref yn

gwahodd etholwyr yn Rhuthun i gysylltu gyda Swyddog Canlyniadau'r Cyngor Sir os oeddynt yn dymuno i'r seddi gael eu llenwi trwy gyfrwng etholiad. Y dyddiad cau ar gyfer hyn fyddai dydd Gwener, 12 Chwefror, a byddai'r aelodau'n cael eu hysbysu am y canlyniad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref. Awgrymodd yr aelodau, pe na bai cais am etholiad a bod y seddi i'w llenwi trwy gyfethol y dylid cael ffurflen safonol i'r ymgeiswyr ei chyflwyno.

**PENDERFYNWYD:** *derbyn yr wybodaeth am y ddwy sedd wag ar y Cyngor Tref a defnyddio ffurflen gais gyfethol petai'r seddi'n cael eu llenwi trwy gyfethol.*

#### **44. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL**

Gofynnwyd i aelodau ystyried cais am £900 o gymorth ariannol gan Fenter Iaith Sir Ddinbych i gefnogi gweithgareddau ar-lein ar gyfer trigolion Rhuthun yn hybu defnyddio'r Gymraeg. Cynigiwyd ac eilwyd cefnogi'r cais.

**PENDERFYNWYD:** *yn unfrydol ddarparu cymorth ariannol o £900 i Fenter Iaith Sir Ddinbych.*

#### **45. CEISIADAU AM LYTHYRAU CEFNOGAETH**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ceisiadau am lythyrau cefnogaeth gan Gwmni Budd Cymunedol Marchnadoedd Artisan Rhuthun ar gyfer ei gais i gronfa Fferm Wynt Clocaenog a Phwyllgor Cymdeithas Trigolion Parc Seren ar gyfer ei gais am gyllid cymudol gan Gyngor Sir Ddinbych. Cafwyd cais i gael eglurder ynghylch strwythur a chyfansoddiad Cwmni Budd Cymunedol Marchnadoedd Artisan Rhuthun.

**PENDERFYNWYD:** *darparu llythyr cefnogaeth i Gymdeithas Trigolion Parc Seren a chael eglurder ynghylch strwythur a chyfansoddiad Cwmni Budd Cymunedol Marchnadoedd Artisan Rhuthun.*

#### **46. ADNEWYDDU'R POLISI YSWIRIANT**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cost adnewyddu'r yswiriant gyda Zurich am ail flwyddyn cytundeb pum mlynedd am £4,119.81.

**PENDERFYNWYD:** *cymeradwyo adnewyddu'r polisi yswiriant am flwyddyn arall am £4,119.81.*

#### **47. CYMORTH TECHNOLEG GWYBODAETH**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen i lunio manyleb ar gyfer anghenion Technoleg Gwybodaeth y Cyngor Tref – caledwedd, meddalwedd, cynnal a chadw a phecyn cymorth parhaus a gofynion gwefannau, enwau parth a chyfeiriadau e-bost hefyd. Awgrymwyd y gallai'r Cynghorwyr a oedd yn aelodau'r Gweithgor Cyfathrebu ymgymryd â hyn, a gwnaethant gytuno.

**PENDERFYNWYD:** *trefnu cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Technoleg Gwybodaeth i ystyried manyleb fanwl ar gyfer pecyn Technoleg Gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer y Cyngor Tref.*

#### **48. CYLLIDEB AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2021-22**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cyllid a phraesept Cyngor Tref Rhuthun ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Awgrymwyd ychwanegu £2,000 ar gyfer darpariaeth Technoleg Gwybodaeth, yn dilyn y drafodaeth am yr eitem flaenorol, a fyddai'n dod â'r cyfanswm sy'n ofynnol i £153,260 a chyfraniad treth gyngor Band D o £61.96 yn 2021-22 o'i gymharu gyda £61.09 yn 2020-21.

**PENDERFYNWYD:** *cytuno i gynnwys swm ychwanegol o £2,000 ar gyfer darpariaeth Technoleg Gwybodaeth a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych mai'r cais praesept ar gyfer 2021-22 fyddai £153,260.*

#### 49. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diwedd 31 Rhagfyr 2020.

**PENDERFYNWYD:** derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diwedd 31 Rhagfyr 2020.

#### 50. CYFRIFON I'W TALU

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

BA	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – Tachwedd a Rhagfyr 2020	*	£180.00
BA	Canda Copying Ltd	Llogi'r peiriant argraffu a chopïau isafswm	*	£41.90
BA	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£11.03
BA	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£1.28
BA	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol – Ionawr		£560.03
BA	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres a thanysgrifiad Sage - Ionawr	*	£92.40
BA	KMT Electrical	Gosod goleuadau LED ar y goeden Nadolig	*	£576.00
BA	KMT Electrical	Tynnu'r goleuadau LED oddi ar y goeden Nadolig	*	£582.00
BA	IT Williams Ltd	Llogi lori Hiab a gyrrwr i osod y goeden Nadolig – llogi lori Hiab a gyrrwr i dynnu'r goeden ymaith a'i gwaredu – am ddim	*	£312.00
BA	Dave Snape	Tanysgrifiad Microsoft Office 365 – Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2020	*	£56.88
BA	SLCC	Adnewyddu aelodaeth 2021		£185.00
BA	Cyngor Sir Ddinbych	Gosod a thynnu'r goleuadau Nadolig ar ac oddi ar y colofnau goleuadau stryd	*	£5,422.25
BA	Cronfa Bensiwn Clwyd	Cyfraniadau pensiwn		£3,723.87
O gyfrif Yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:				
BA	BT Business	Gwasanaeth ffôn Cwmwl a Band eang	*	£67.19
BA	Scottish Power	Costau trydan yr Hen Lys, 07.09.20 – 18.12.20	*	£148.81
BA	Ruthin Decor	Eitemau i'r Hen Lys	*	£12.14
BA	Richard Williams	Pren ar gyfer yr Hen Lys	*	£12.29

Commented [S1]:

#### 51. LLIFOGYDD STRYD CLWYD

Gwhoddwyd yr aelodau i drafod ymateb Cyngor Tref Rhuthun i'r llifogydd a ddigwyddodd nos Fercher, 21 Ionawr. Mynegodd yr aelodau eu diolch i'r Cynghorwyr Tref a'r Cynghorwyr Sir a oedd wedi cynorthwyo yn y lleoliad, i gwmni IT Williams Co. Ltd. am ddarparu sachau tywod a sgipiau ac i'r cyhoedd a oedd wedi cynnig llety, dodrefn ac eitemau eraill i'r rhai yr effeithiwyd arnynt. Cynigiwyd sefydlud cronfa i ddarparu cymorth uniongyrchol i'r rhai a ddiodeffodd effeithiau'r llifogydd. Cynigiodd y Cynghorwyr Menna Jones, Anne Roberts a Heather Williams fod yn aelodau'r grŵp i wneud hyn, ynghyd â'r Cynghorydd Sir Emrys Wynne ac awgrymwyd gwahodd y Parchedig Stuart Evans i gadeirio'r grŵp fel y gwnaeth pan effeithiodd llifogydd ar gartrefi yng Nglasdir.

**PENDERFYNWYD:** sefydlu Grŵp Lliniaru Llifogydd i ddarparu cymorth uniongyrchol i'r rhai yr effeithiwyd arnynt.

## **RHAN DAU**

Cynigwyd ac eiliwyd ystyried yr eitem isod yn breifat a gwahadd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod yr eitem fusnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu.

**PENDERFYNWYD:** gwahardd y Wasg a'r cyhoedd yn ystod trafod yr eitem a ganlyn.

## **52. COD YMDDYGIAD**

Hysbyswyd yr aelodau am gyngor a dderbyniwyd gan Swyddog Monitro Cyngor Sir Ddinbych ynghylch gohebiaeth ddiweddar ynghylch y Cod Ymddygiad Cyngorwyr.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r cyngor a chysylltu â'r rhai a anfonodd yr ohebiaeth i gyfleu'r cyngor a dderbyniwyd.

## **53. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** cadarnau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 22 Chwefror 2021, am 7pm.